

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Clerc Mai Owen 01407 740739 / 07795260139 llanfairnb@hotmail.co.uk , clerk@llanfairynneubwll.org

Cofnodion Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Caergeiliog am 7.00 pm nos Fawrth 20 Mai 2025

Yn bresennol: Cynghorydd Einir Thomas – Cadeirydd

Cynghorwyr: Celfyn Furlong, Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, Gordon Owen, William Victor Owen, Sharon Parry, Evan Wyn Robertson a Gareth Thomas.

Hefyd yn bresennol: Mai Owen (clerc) a'r Cynghorydd Sir Ken Taylor.

1. Ymddiheuriadau: Cyng. Dyfed Williams.

2. Ethol Cadeirydd 2025 – 2026

Cytunwyd yn unfrydol i benodi Cyng. Einir Thomas yn gadeirydd.

3. Ethol Is-Gadeirydd 2025-2026

Cytunwyd yn unfrydol i benodi Cyng. Gareth Thomas yn Is-gadeirydd.

4. Ethol Cynrychiolwyr – etholwyd y canlynol:

4.1 Cymdeithas Un Llais Cymru - yn agored i unrhyw un sydd ar gael i fynychu.

4.2 Aelod Cyllid – Cyng. Dyfed Williams a Gareth Thomas.

4.3 Llywodraethwyr Ysgol y Tywyn - Cyng. Dyfed Williams a Sharon Parry (cynrychiolydd CSYM)

4.4 Bwrdd Gofalwyr Towyn Trewan – Cyng. Celfyn Furlong a William Victor Owen - i'w adolygu'n flynyddol.

4.5 Fforwm Cyswllt y Cyngor Tref a Chymuned - Cynghorydd Gwilym Jones ond hefyd yn agored i unrhyw un sydd ar gael i fynychu.

4.6 Pencampwr y Gymraeg – Cyng. Gwilym O. Jones.

4.7 Neuadd y Pentref - ar agor i bob Aelod.

5. Datganiad o Ddiddordeb – Cyng. K. Taylor yn datgan diddordeb personol yn y materion cynllunio gan ei fod yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio.
Cyng. Gwilym O. Jones a Gordon Owen - eitem 7.3 Caergeiliog, Neuadd y Pentref.

6. Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd cofnodion 15 Ebrill 2025 fel rhai cywir (Cynnig. Cyng. G. O. Jones, eilio Cyng. S. Parry.)

7. Materion yn codi o'r cofnodion

7.1 Chwarae Maes – Roedd y rhwyd ar y sleid wedi'i drin a'r offer chwarae i gyd wedi'i baentio. Roedd yr un contractwr yn barod i ddefnyddio 'wet pour' ar yr arwynebau ond roedd yn gyndyn o symud ac ail osod y teils rwber gan nad oedd yn ffyddiog y byddai'n

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Clerc Mai Owen 01407 740739 / 07795260139 llanfairnb@hotmail.co.uk , clerk@llanfairynneubwll.org

llwyddo i ddatrys y broblem. Fe beintwyd un o'r meinciau hefyd ond roedd yn amau nad oedd y seddi pren eraill yn werth eu trin. Nodwyd fod planc rhydd yn cael ei ddefnyddio fel sbardun ar un ohonnynt, cytunwyd i gael gwared ohonni. Byddai ROSPA yn gwneud eu harolwg blynyddol ym mis Mehefin.

- 7.2 Diffibriliwr Caergeiliog – roedd hwn bellach wedi'i osod, byddai'r clerc yn trefnu hyfforddiant cyn gynted â phosibl.
- 7.3 Neuadd y Pentref – Roedd R.G Hire wedi addo mynychu'r wythnos ganlynol i osod y beipen ar gyfer y cyflenwad dŵr newydd. Nodwyd bod y ffaith bod gan y neuadd dri chod post gwahanol yn achosi problemau gyda throsglwyddo'r biliau cyfleustodau.
- 7.4 Arwyddion Ffordd Minffordd – roedd ymholiadau yn parhau.
- 7.5 Unrhyw faterion eraill sy'n codi o'r cofnodion - dim

8. Materion Ariannol

Cyflwynodd yr SAC yr adroddiad ariannol am y cyfnod o 1.4.2025 i 30.4.2025 ynghyd â chysoniadau banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.
Cyfrif cyfredol £37979.52, Cyfrif Cadw £ 4,111.59.

- 8.1 Cofrestr asedau – cytunwyd i dderbyn y gofrestr wedi'i diweddaru (gan gynnwys prydles Neuadd y Pentref a diffibriliwr ychwanegol)
- 8.2 Yswiriant – cytunwyd i dderbyn y dyfynbris gan Clear Ins. Management ar gyfer 2025-26.
- 8.3 Ffioedd a Thaliadau am logi Neuadd y Pentref - cytunwyd i godi £25 am y sesiwn hanner diwrnod.
- 8.4 Taliadau i'w gwneud:

Cyflog (Ebrill)	£441.27	Yswiriant	£3444.08
Clerc (ad-daliad)	£62.2	G. Palmer	£1673
Earth Connections	£100	S. Wharton	£200

Cytunwyd hefyd y dylai'r SAC wneud taliadau a gytunwyd yn flaenorol gwaith a dyfyniadau os byddant yn codi cyn y cyfarfod nesaf.

9. Dogfennau Statudol – cafodd y canlynol eu hadolygu a'u diwygio yn ôl yr angen.

- 9.1 Rheolau Sefydlog – dim newid (adolygiad ddiwethaf Mehefin 2023).
- 9.2 Rheoliadau ariannol - i'w diweddaru i ddangos deddfwriaeth ddiwygiedig yn unol â Model enghrefftiol Un Llais Cymru.
- 9.3 Polisi Lwfans Aelodau – dim newid, adolygwyd ym mis Mai 2024.

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Clerc Mai Owen 01407 740739 / 07795260139 llanfairnb@hotmail.co.uk , clerk@llanfairynneubwll.org

- 9.4 Asesiad Risg – wedi'i ddiweddarau i gynnwys risg ariannol sy'n ymwneud â'r Neuadd Bentref.
- 9.5 Cod Ymddygiad – dim newid.
- 9.6 Cofrestr Lletygarwch – Cofrestr Nil a gofrestrwyd ar gyfer 2024/25.

10. Gohebiaeth

- 10.1 Cymorth Cynllunio Cymru – Rhaglen Hyfforddi Flynyddol
- 10.2 Galwad am Safleoedd – Cynllun Datblygu Lleol
- 10.3 Gorchymyn Traffig Arfaethedig – ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r terfyn cyflymder o 20mya o'r tu hwnt i Fryn Ednyfed i lawr tuag at Neuadd y Pentref.
- 10.4

11. Ceisiadau Cynllunio

- 11.1 FPL/2025/61 Felin Wen, Llanfair Yn Neubwll
Cais llawn ar gyfer codi bloc stablau ar dir - dim gwrthwynebiad.
- 11.2 HHP/2025/65 Old Cymyran, Llanfair Yn Neubwll.
Cais llawn ar gyfer dymchwel y garej presennol ynghyd ac addasu ac ehangu - dim gwrthwynebiad.
- 11.3 LBC/ 2025/14 Tolldy, Holyhead Road, Caergeiliog, Caergybi / Holyhead
Caniatâd Adeilad Rhestredig ar gyfer adnewyddu cyffredinol ynghyd â chais ôl-weithredol ar gyfer codi to fflat / cytunwyd ei bod yn hanfodol diogelu uniondeb yr adeilad, y cynllunwyr arbenigol oedd y sefyllfa orau i sicrhau bod hyn yn digwydd.

12. Penderfyniadau Cynllunio - dim

- 12.1 FPL/2023/250 Bryn Trewan, Llanfihangel yn Nhowyn - Caniatâd.
- 12.2 FPL/2024/49 70 Ffordd Minffordd / Minffordd Road. - Caniatâd.

13. Adroddiadau Aelodau

- 13.1 Cyng. Sharon Parry – yn dweud fod angen glanhau'r lloches bws ger yr Eglwys yn Llanfihangel yn Nowyn ac roedd y rheiliau yn dal wedi eu difrodi.

Bu tipio anghyfreithlon y tu ôl i'r Eglwys – roedd yr oergelloedd wedi eu tynnu ond roedd yna ryw faint o asbestos yno o hyd.
- 13.2 Cyng. Siân Jones yn gofyn i gynnwys y goleuadau ar Lôn Minffordd ar y rhaglen ar gyfer y mis nesaf.

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Clerc Mai Owen 01407 740739 / 07795260139 llanfairnb@hotmail.co.uk , clerk@llanfairynneubwll.org

14. Dyddiad y cyfarfod nesaf - 17 Mehefin 2025.